

## **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith o'r enw Adroddiad ar bolisiau morol Llywodraeth Cymru.**

### **Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad allanol o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru i lywio ei hadolygiad ei hun yn ddiweddarach yn 2022

### **Ymateb: Cytuno mewn egwyddor**

Eleni, bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd ar effeithiolrwydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu fframwaith monitro'r cynllun a dangosyddion ar gyfer asesu cynnydd er mwyn sicrhau y bydd yr adroddiad yn seiliedig ar ddadansoddiad gwrthrychol o'r dystiolaeth sydd ar gael. O ystyried cyflwyno'r cynllun morol yn ddiweddar, rydym yn rhagweld y bydd tystiolaeth gyfyngedig ar gael i lywio asesiad trylwyr o gynnydd. Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r dull a awgrymir yn yr argymhelliad hwn a byddwn yn comisiynu dadansoddiad allanol i lywio'r adroddiad statudol nesaf.

### **Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan ganolog o'i hadolygiad o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan ganolog o'r broses adrodd. Rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu fframwaith monitro'r cynllun a dangosyddion monitro, ac rydym wedi cynnal arolwg cyhoeddus o effeithiolrwydd y cynllun. Rydym yn bwriadu ail-gynnal yr arolwg cyhoeddus eleni cyn cyflwyno adroddiad, a byddwn yn gweithio drwy'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol i drafod cynnydd a'r camau nesaf ar gyfer cynllunio morol fel rhan o'r gofyniad adrodd.

### **Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ymhen 6 mis am ei chynnydd yn gweithredu'r argymhellion yn y gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy.

### **Ymateb: Derbyn**

Roedd yr argymhellion archwiliad dwfn yn cynnwys nodau tymor byr, canolig a hirdymor a chytunodd Llywodraeth Cymru, drwy'r broses archwilio ddofn, i ailymgynnull y grŵp archwilio dwfn bob dau fis fel y gallai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf

am gynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion. Yn y cyfarfod cyntaf, a gynhaliwyd ddiwedd mis Chwefror, roedd y grŵp yn hapus â'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion. Mae gweithgorau i helpu i ysgogi cynnydd wedi'u sefydlu ac yn cael eu sefydlu.

## **Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'i chynlluniau, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer datganoli'r cyfrifoldeb dros reoli Ystad y Goron a'i hasedau yng Nghymru.

#### **Ymateb: Derbyn**

Cytunwyd ym mis Ionawr 2022 y byddai cyfarfod ag Ystad y Goron i drafod eu gweithrediadau yng Nghymru, ac ystyried llunio papur technegol yn edrych ar oblygiadau datganoli, yn cael ei drefnu. Unwaith y bydd y dasg hon wedi'i chwblhau, byddwn yn gallu cwblhau ein cynlluniau ar gyfer Ystad y Goron.

## **Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Cynllun Ynni Morol i adlewyrchu ei huchelgeisiau a'i bwriadau yn y maes polisi hwn.

#### **Ymateb: Cytuno mewn egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu Cynllun Ynni Morol Cymru i ystyried a oes angen ei diweddarau a sut y mae angen ei diweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf.

## **Goblygiadau Ariannol – Dim.**

### **Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr her morlynnoedd llanw.

#### **Ymateb: Derbyn.**

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr her morlynnoedd llanw wrth i'r prosiect ddatblygu.

## **Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd ei hadolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r broses gydsynio yn agored ac yn dryloyw, a dylai nodi sut y bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i gyfrannu.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu contractwr annibynnol i gynnal adolygiad o drwyddedu morol o'r dechrau i'r diwedd er mwyn sicrhau ei fod yn agored ac yn dryloyw. Mae'n hanfodol bod rhanddeiliaid yn cael y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad a bydd hyn yn rhan annatod o'r broses. Croesewir barn rhanddeiliaid ar unrhyw agwedd ar ddarparu trwyddedu morol, a chytunir ar ffyrdd o'u mewnbynnu gyda'r contractwr unwaith y byddant ar waith.

### **Goblygiadau Ariannol – Dim.**

Mae £300,000 eisoes wedi'i ddyrannu ar gyfer yr adolygiad o gyllideb 2022-23.

### **Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amserlen, ar gyfer dirprwyo pwerau cynghori ar y môr o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i ysgwyddo'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae trafodaethau wedi'u cynnal ac maent yn mynd rhagddynt rhwng y Cyd-swyddogion a CNC, a chyda swyddogion Llywodraeth Cymru yng nghanghennau'r Polisi Morol ac Ynni. Y ffocws cychwynnol yw adolygiad o ddetholiad o opsiynau a fyddai'n cyflawni'r argymhelliad hwn, wedi'i ategu gan fanylion o'r Alban a Lloegr lle mae'r newid hwn wedi digwydd yn flaenorol, gwybodaeth am ragolygon gwaith ynni adnewyddadwy morol yn nyfroedd Cymru ac asesiad o'r adnoddau angenrheidiol. Defnyddir yr opsiynau hyn i gytuno ar yr opsiwn a ffefrir, a fydd wedyn yn cael ei gwmpasu i ddarparu cynllun cyflawni gan gynnwys amserlenni. Bydd adnoddau'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses gwmpasu.

### **Goblygiadau Ariannol – Dim.**

### **Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn cyflawni'r ymrwymiad yn y gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy i ganfod y prif fylchau mewn tystiolaeth forol a daearol ynghyd â ffyrdd o lenwi'r bylchau hyn. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut y caiff gwaith o'r fath ei ariannu.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn trafodaethau gyda CNC ac wedi nodi'r bylchau sy'n gysylltiedig â thystiolaeth forol, sy'n ymwneud yn bennaf â thystiolaeth ar

ryngweithio rhwng technoleg a'r amgylchedd. Rydym wedi cytuno y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu amserlen ar gyfer nodi a llenwi bylchau tystiolaeth presennol ar gyfer prosiectau ynni ar y tir drwy'r broses archwilio dwfn. Fodd bynnag, bydd hwn yn ddarlun sy'n esblygu wrth i dechnolegau newydd gael eu datblygu a'u masnacheiddio.

Byddwn yn parhau i weithredu dull gofodol o gynllunio morol, gan weithio gyda CNC i ddeall cyfyngiadau a chyfleoedd ecolegol. Yn ogystal, byddwn yn mapio ystyriaethau gofodol economaidd-gymdeithasol ac yn nodi bylchau a mecanweithiau tystiolaeth ofodol i'w llenwi fel rhan o gynllunio morol. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth sylfaenol strategol ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy, a chyfres o nodiadau gwybodaeth a fydd yn nodi bylchau yn y dystiolaeth sy'n benodol i'r pwnc mewn perthynas â datblygu technolegau ynni llif llanw.

## **Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y gall datblygwyr gyfrannu mwy at y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i gynllunio morol. Dylai nodi sut y bydd yn dileu rhwystrau i sicrhau y gellir rhannu data tra'n parchu cyfrinachedd masnachol

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae cynllunio morol yn broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gall datblygwyr wneud cyfraniad pwysig tuag at ein dealltwriaeth o'r amgylchedd morol a chynllunio morol yn y dyfodol. Mae Cynllun Cenedlaethol Morol Cymru yn annog rhannu tystiolaeth ac yn annog sectorau i gydweithio i ddeall cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy drwy fynd i'r afael â bylchau allweddol yn y dystiolaeth.

Mae'n bwysig ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ddysgu o ddatblygiadau, gan sicrhau y gall data newydd fwydo'n ôl i benderfyniadau yn y dyfodol gan gynnwys cywirdeb yr effeithiau a ragwelir a sut y gall hyn lywio asesiadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i rannu data. Rydym yn rhan o Grŵp Tystiolaeth Moroedd Cynhyrchiol y DU sydd wedi ystyried y mater hwn. Rydym hefyd yn cefnogi menter Cyfnewid Data Morol Ystâd y Goron sy'n darparu data gan y diwydiant ynni adnewyddadwy ac agregau morol.

Rydym yn cytuno bod y mater hwn yn haeddu camau pellach a byddwn yn nodi yn y diwygiad nesaf o Strategaeth Tystiolaeth Forol Llywodraeth Cymru sut y gallwn weithio gyda diwydiant i fwrw ymlaen â hyn.

## **Goblygiadau Ariannol – dim ar hyn o bryd.**

### **Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru 2019-22, gan gynnwys unrhyw asesiad sydd wedi'i gynnal o'i heffeithiolrwydd, ac egluro a fydd y strategaeth yn cael ei hadolygu neu ei diwygio yng ngoleuni'r ymrwymiad yn y gwaith dadansoddi manwl ym maes ynni adnewyddadwy

## **Ymateb: Derbyn**

Byddai Swyddogion Llywodraeth Cymru yn hapus i roi diweddariad canol tymor ar gyflawni Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru, tra'n cydnabod nad yw'r anghenion tystiolaeth a nodwyd yn rhai i Lywodraeth Cymru eu cyflawni ar eu pen eu hunain. Nod y strategaeth oedd pennu'r cyfeiriad a'r meysydd tystiolaeth sydd eu hangen yn ystod y cyfnod hwn o chwe blynedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r angen i ddiweddarau dogfen Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru 2019-2025 yng ngoleuni anghenion tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Mae swyddogion yn fodlon bod y blaenoriaethau tystiolaeth strategol trosfwaol yn dal i gynrychioli'r anghenion tystiolaeth lefel uchel gan gynnwys y rhai a nodwyd gan yr archwilio dwfn.

Mae'r cynnydd o ran cyflawni Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru yn cael ei fonitro drwy Banel Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru. Mae cwblhau prosiectau tystiolaeth morol, pysgodfeydd a dyframaeth a arweinir neu y cyfrannwyd atynt gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cael ei gynnwys mewn tri Chynllun Tystiolaeth dwy flynedd mewnol, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u gwerthuso'n ffurfiol ar ddiwedd casgliad pob cynllun.

## **Goblygiadau Ariannol – Dim.**

## **Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Dylai'r strategaeth hon ganolbwyntio ar yr angen i ddilyn dulliau lleol o weithio a dulliau o weithio sy'n edrych ar y rhwydwaith cyfan. Dylai'r strategaeth hefyd geisio cyflawni amcanion cadwraeth Ardaloedd Morol Gwarchoddedig unigol, lle bydd hynny'n berthnasol

## **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor.**

Cytunaf â'r egwyddorion mae'r pwyllgor wedi'u hamlinellu yn yr argymhelliad, ac rwyf wedi ymrwmo i ddulliau gweithredu ar lefel leol ac ar lefel rhwydwaith. Ar hyn o bryd nid wyf yn ystyried strategaeth annibynnol, ond yn hytrach yn sicrhau bod y dull strategol presennol a amlinellir yn Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn cael ei ddatblygu a'i ymgorffori yn ein strategaethau a'n cynlluniau hirdymor ar gyfer rhwydweithiau ecolegol gwydn yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys y Rhaglen Rhwydweithiau Natur a Strategaeth Forol y DU.

Mae ein Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn nodi dull strategol clir drwy egwyddorion rheoli effeithiol ar gyfer gwella gwydnwch ein rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, a sicrhau bod nodweddion yn cynnal neu'n symud tuag at gyflwr ffafriol. Mae nifer o gamau llwyddiannus wedi cael eu cymryd drwy'r fframwaith ac mae camau gweithredu yn y dyfodol bellach yn cael eu cefnogi gan gynllun grant Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Bydd y pwyllgor yn ymwybodol y disgwylir i'r Fframwaith gael ei adnewyddu yn 2023. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i adolygu'r fframwaith a sicrhau y gall hyn barhau i fod yn blatfform strategol effeithiol ar gyfer rheoli ein rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

Yn ogystal, rwyf wedi ymrwmo i gyflawni ein rhaglen gyflawni ar gyfer y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a byddaf yn nodi fy uchelgeisiau ar gyfer y broses

ddynodi Parthau Cadwraeth Morol cyn bo hir. Mae cryn waith wedi cael ei wneud i baratoi dogfennau cyn-ymgyngori a fydd yn cefnogi ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddwn yn croesawu eich barn ar ôl iddo gael ei lansio, ac yn yr ymgynghoriad sydd i gael ei lansio yn 2023.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 13**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r diffyg cynnydd o ran dynodi Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a Pharthau Cadwraeth Morol a rhoi amserlen ar gyfer eu dynodi

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n cydnabod yr oedi cyn cyflwyno'r maes gwaith hwn a gafodd ei effeithio gan adleoli staff i gefnogi ein hymateb i Covid-19 wrth ymadael a'r UE. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol i ddatblygu'r holl ddogfennau cyn ymgynghori a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i lansio ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Disgwylwn i'r cam nesaf hwn o waith gael ei lansio yn ystod y misoedd nesaf, mewn cydweithrediad â Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Parth Cadwraeth Morol.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 14**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd y dull newydd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i ddatblygu ar gyfer cynnal asesiadau o gyflwr safleoedd yn cael ei ariannu

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n cydnabod y rôl bwysig sydd gan asesiadau cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig i lywio ein rhaglen reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a sicrhau bod statws ffafriol yn cael ei gyflawni ar gyfer ein nodweddion gwarchoddedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn archwilio'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur fel opsiwn posibl ar gyfer ariannu asesiadau cyflwr nodweddion ar gyfer rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru. Mae dulliau ychwanegol eraill o ariannu yn parhau i gael eu harchwilio.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 15**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r trafodaethau diweddaraf y mae wedi'u cynnal ynghylch gweithredu rhaglenni monitro morol yn seiliedig ar risg drwy'r rhwydwaith o

Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig 2020-21

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i raglen fonitro ledled y DU yn seiliedig ar yr opsiynau monitro a nodwyd i gefnogi'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig cyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod gyda Llywodraethau'r DU a'r Llywodraeth Ddatganoledig ynghylch sut i gyflawni hyn.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 16**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei chynlluniau diweddaraf ar gyfer dynodi Ardaloedd Morol Gwarchoddedig lawn.

### **Ymateb: Derbyn**

Yn dilyn rhaglen cwblhau rhwydwaith ardaloedd morol gwarchoddedig, mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar y cyfle i ailedrych ar ein safleoedd a'u llwyddiannau. Ein nod yw asesu ein rhwydwaith ac a yw'r manteision, megis ecosystemau mwy cydnerth, a'r amddiffyniadau a geiswn yn cael eu gwireddu. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad cyfannol ac yn ailedrych ar y lefelau o ddiogelwch a roddir i'n safleoedd ac a yw'r rheolaeth bresennol yn gymesur ac yn effeithiol. Dylid ystyried yr angen, a phriodoldeb, ar gyfer meysydd lle ceir mwy o ddiogelwch fel rhan o'r broses hon.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 17**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu diben ac amserlen yr ymgynghoriad cyhoeddus ar garthu a threillio gwely'r môr yn Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal gwerthusiad strwythuredig o'r rhyngweithio posibl rhwng offer pysgota â nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru y cyfeirir atynt fel prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru. Disgwylir y bydd yr olaf o'r asesiadau offer tynnu yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2022, ac ar ôl hynny rhagwelir y bydd cynigion ar gyfer unrhyw fesurau rheoli angenrheidiol yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd yr amserlen ar gyfer unrhyw ymgynghoriad yn cael ei phennu ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar y pryd.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 18**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y gall gefnogi rhagor o brosiectau i ddal a storio carbon glas yn nyfroedd Cymru

### **Ymateb: Derbyn**

Yr wyf yn cydnabod y rôl bwysig y gall carbon glas ei chwarae o bosibl yn ein taith i sero net. Fel un o fanteision allweddol ecosystemau morol gwydn, byddwn yn annog cynnal a gwella'r cynefinoedd hyn drwy ein hymyriadau, gan gynnwys Fframwaith Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, ac ymrwymiad ehangach y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer adfer cynefinoedd morol ac arfordirol.

### **Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 19**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei safbwynt ar ddatblygu Cynllun Adfer Carbon Glas Cenedlaethol i Gymru. Os yw'n credu y gellid gwneud cynnydd yn y maes polisi hwn mewn ffordd well, dylai nodi beth yw'r ffordd honno

### **Ymateb: Derbyn**

Mae Partneriaeth Tystiolaeth Carbon Glas y DU (UKBCEP) yn agos at gael ei sefydlu gyda'r cyfarfod cyntaf i'w gynnal ym mis Mai.

Bydd UKBCEP yn hwyluso cydgysylltu a chydweithredu ar draws gweinyddiaethau'r DU ac yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gynefinoedd carbon glas yn y DU drwy fynd i'r afael â chwestiynau ymchwil allweddol sy'n ymwneud â pholisi carbon glas. Mae tasgau blwyddyn un yn cynnwys mapio anghenion tystiolaeth yn erbyn anghenion polisi perthnasol, gan adlewyrchu'r gwahanol bolisiau ym mhob Gweinyddiaeth. Bydd hyn yn tynnu sylw at feysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil a dylanwad pellach ac yn llywio gweithgareddau ymchwil yng Nghymru.

Rydym yn ystyried sefydlu grŵp penodol i Gymru, ac rydym yn monitro cynnydd Fforwm Carbon Glas y DU a arweinir gan gyrff anllywodraethol a'r UKBCEP i sicrhau ein bod yn glir ynghylch ein huchelgeisiau ar gyfer grŵp o'r fath.

### **Goblygiadau Ariannol – Dim**

### **Argymhelliad 20**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Sero Net Cymru yn nodi cynnig ar gyfer datblygu ein maes polisi carbon glas.

Bydd diogelu cynefinoedd carbon glas yn ei gwneud yn ofynnol i ni fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Rydym yn gweithio gyda CNC a Phartneriaeth Tystiolaeth Carbon Glas y DU i ddatblygu a chyflwyno cynllun tystiolaeth carbon glas a rennir, i gynnwys effeithiau gweithgarwch dynol a newid yn yr hinsawdd ei hun ar gynefinoedd ac allyriadau carbon glas.



Ar sail y dystiolaeth hon, byddwn yn cymryd camau lle bynnag y bo angen i ddiogelu cynefinoedd carbon glas yn ofodol ac yn ôl gweithgarwch. Gellid ystyried cynhyrchu cynllun adfer carbon glas yn ddiweddarach unwaith y bydd y sylfaen dystiolaeth wedi'i sefydlu ymhellach.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Julie James**

**Y Gweinidog dros y Newid yn yr Hinsawdd**